



Ar Osod

Cyn-Sied Drenau, BSC2, Hood Road, Y Barri, CF62
5QL



- Defnyddiau Masnachol a Hamdden
 - 1500tr² (139m²)
 - Prydles 10 mlynedd.

Ymweliad drwy Apwyntiad - cysylltwch â'r tîm Ystadau:

Penny Fuller 01446 709885 pfuller@valeofglamorgan.gov.uk

Ben Winstanley 01446 709176 bwinstanley@valeofglamorgan.gov.uk

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English

Cyflwyniad

Mae Cyngor Bro Morgannwg (“y Cyngor”) yn dymuno gwahodd cynigion gan bartion sydd â diddordeb mewn cymryd prydles 10 mlynedd o’r uned sy’n ffinio â BSC2, Hood Road, Y Barri (“yr adeilad” a nodwyd yn Atodiad A).

Hoffai'r cyngor ddenu tenant a fydd yn ategu ac yn gwella'r defnyddiau cyfagos. Rhoddir ystyriaeth i ddefnyddiau masnachol a hamdden (yn amodol ar gynllunio) a fydd yn helpu'r llwybr tuag i fyny ymhellach yn yr ardal.

Diben

Diben y Briff Marchnata hwn yw darparu'r wybodaeth gefndir bwysig ganlydol i gynorthwyo cynigwyr i baratoi'r wybodaeth sy'n ofynnol ar gyfer cynnig llwyddiannus:

- **Cyd-destun a Disgrifiad;**
- **Ystod bosibl o ddefnyddiau (yn amodol ar unrhyw ganiatâd cynllunio angenrheidiol ar gyfer newid defnydd);**
- **Deunyddiau'r Cynnig, Dyddiad Cau a Chyfeiriad i Gyflwyno Cynigion;**
- **Dethol y Cynigydd a Ffafrir a'r Meini Prawf Sgorio a Bwysolir**
- **Dull gwaredu;**
- **Crynodeb o Ragdybiaethau Gweithredol ar gyfer Cynigwyr;**
- **Proses Gynllunio Ar Wahân;**
- **Contractau; ac**
- **Ymwadiad.**

Cynhyrchir y briff Marchnata hwn fel canllaw yn unig.

Cyd-destun Adeilad a Disgrifiad

Nodir ffin yr eiddo i'r Cyngor sydd wedi'i gynnwys yn y cyfle hwn **ag ymyl coch** ar y Cynllun Ffin (Atodiad A).

Bro Morgannwg

Bro Morgannwg yw Awdurdod Unedol mwyaf deheuol Cymru, yn gorwedd i'r gorllewin o Gaerdydd rhwng yr M4 ac Aber Afon Hafren. Mae'n 33,097 hectar o faint, y mae tua 85% (28,132 hectar) ohono'n dir amaethyddol. Mae gan y Fro 53 cilomedr o arfordir, y mae 19 cilomedr ohono wedi'i ddynodi'n Arfordir Treftadaeth. Mae'n ffinio ag awdurdodau Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i'r gorllewin, Cyngor Caerdydd i'r dwyrain a Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf i'r gogledd.

Y Barri

Y Barri yw'r brif dref ym Mro Morgannwg, ar arfordir gogleddol yr Hafren tua 9 milltir (14 cilomedr) i'r de-orllewin o Gaerdydd. Wedi'i gysylltu'n dda gan gysylltiadau ffyrdd a rheilffyrdd, mae'r orsaf reilffordd agosaf 0.5 milltir i ffwrdd ac mae nifer o wasanaethau bws.

Yn ôl Amcangyfrif data 2016 y Swyddfa Ystadegau Gwladol, poblogaeth y Barri oedd 54,673.

Mae'r Ystafell Beiriannau wedi'i lleoli yn ardal adfywio'r Ardal Arloesi yn y Barri. Mae'r Ardal Arloesi ar gam datblygedig o ran cyflawni prosiectau. Hyd yma, mae'r prosiectau datblygu gwerth miliynau o bunnoedd a gyflwynwyd yn cynnwys y canlynol, ynghyd ag adeilad blaenorol y Ganolfan Sgiliau:

- Trawsnewidiad arobryn y Pumhouse,
- Gwesty'r Premier Inn a thŷ bwyta Brewers Fayre;
- Canolfan Feddygol Cei'r Gorllewin,
- Y Ganolfan Gwasanaethau Busnes
- Y trawsnewidiad defnydd cymysg arobryn o eiddo Sied Nwyddau Hood Road a phentref cynwysyddion llongau newydd a bloc fflatiau newydd i Gymdeithas Tai Newydd.

Yr Eiddo

Mae'r eiddo yn hen uned ddiwydiannol ysgafn a ddefnyddiwyd yn flaenorol i atgyweirio trenau gyda gweithdy, swyddfa, storio a thoiled cysylltiedig.

O fewn yr uned mae prif ran yr eiddo, gyda'r traciau trên yn aros ochr yn ochr â phant arolygu a oedd gynt yn gysylltiedig â'r traciau trên y tu ôl i'r eiddo. Ar hyn o bryd mae gan yr eiddo wres rheiddiol nwy lefel uchel.




Ffigur 1 - Pant arolygu

Mae'r adeilad yn ffinio â'r hen ganolfan sgiliau sydd bellach yn gwasanaethu fel swyddfeydd. Dengys Ffigur 2 y mynediad i'r storfa a'r toiledau, y ceir mynediad iddynt drwy ddrysau cerddwyr o brif ofod y gweithdy.



Ffigur 2 - Wal gyfagos i'r prif adeilad, mynediad i doiledau a'r man storio.

Dengys Ffigur 3 y swyddfa adeiladu bloc o flaen yr adeilad sydd â mynediad i'r naill ochr a'r llall.



Ffigur 3 - Yr olygfa'n edrych tuag at flaen yr adeilad, tuag at y maes parcio ceir

Bydd nifer cyfyngedig o leoedd parcio staff yn cael eu cynnig fel rhan o'r brydles a fydd mewn lleoliad i'w benderfynu. Bydd parcio i gwsmeriaid yn cael ei ddarparu o flaen yr adeilad ym mhrif

ardal y maes parcio, dylid nodi bod yr ardal hon yn cael ei defnyddio gan denantiaid yr adeilad cyfagos ac fel gorlif ar gyfer datblygiad Goodsheds gerllaw.

Gwaith

Mae rhaid i'r tenant newydd wneud cyfres o waith cyn meddiannu'r adeilad. Ceir rhestr o'r gwaith gofynnol yn Atodiad B.

Bydd y gwaith yn cael ei gwblhau er boddhad y landlord a chynigir bod cynigwyr yn manylu ar sut y maent yn cynnig bod y rhent yn cael ei leddfu yn lle'r gwaith hwn. I fod yn glir, ni fydd y Cyngor yn ystyried y gwaith fel gwelliannau Tenantiaid ac felly ni fydd yn cynnig unrhyw iawndal ar ddiwedd y cyfnod.

Penawdau Cyffredinol Telerau'r Brydles

Amseroedd Masnachu

Gall y Tenant fasnachu o'r adeilad rhwng 7am ac 11pm bob dydd.

Cyfrifoldebau ac Ymrwymiadau'r Tenant

Mae cynlluniau a manylebau i'w cymeradwyo'n ysgrifenedig o flaen llaw gan Gyngor Bro Morgannwg fel landlord ac yn rhinwedd ei swydd fel Awdurdod Cynllunio Lleol (os oes angen).

Atgyweirio a rhwymedigaethau eraill

- Bydd yn ofynnol i'r tenant roi'r eiddo mewn cyflwr da cyn iddo gael ei feddiannu ar gytundeb prydles. Ar ôl i'r gwaith gael ei gwblhau er boddhad y landlord, caiff y brydles ei chaniatau.
- Mae'r eiddo i'w osod ar sail atgyweirio ac yswirio llawn. Felly, mae'r tenant yn gyfrifol am yr holl atgyweiriadau mewnol ac allanol i'r adeilad. Bydd y Cyngor yn cymryd yswiriant ac ail-godi'r pris yn unol â hynny i'r tenant.
- Bydd y Tenant yn gyfrifol am gydymffurfio â'r holl brofion cydymffurfio statudol presennol ac yn y dyfodol sy'n ymwneud â Thân, Nwy, Trydan, dŵr ac ati.
- Bydd rhaid i'r Tenant gydymffurfio â Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974.
- Bydd y Tenant yn gyfrifol am gynnal cytundeb rheoli pla ar gyfer y Safle.
- Bydd rhaid archwilio'r offer tân yn flynyddol a rhaid i'r Tenant gadw cofnodion addas.
- Bydd rhaid i'r Tenant wneud asesiad risg a threfnu i'w offer gael ei archwilio'n rheolaidd rhag Legionella, yn unol â chanllaw'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE). Bydd rhaid iddo gadw cofnodion addas er mwyn dangos ei fod yn cydymffurfio, a bydd rhaid i'r rhain fod ar gael er mwyn eu harchwilio ar gais y Cyngor.

- Bydd y Tenant yn gyfrifol am sicrhau bod Yswiriant Cynnwys, Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus ac Yswiriant Atebolrwydd Cyflogwyr ganddo. Bydd y Tenant yn sefydlu, monitro a rheoli tudalen we ar gyfer ei Safle er mwyn darparu gwasanaeth da i gwsmeriaid. Trafodir adborth cwsmeriaid, gan gynnwys adborth drwy safleoedd cyfryngau cymdeithasol megis TripAdvisor, yn y cyfarfodydd perfformiad rheolaidd.
- Bydd y Tenant yn gwneud ymdrech resymol i lanhau graffiti oddi ar y tu mewn a'r tu allan i'r Safle o fewn 24 awr i'w ddarganfod. Os nad yw'n bosib i'r Tenant lanhau neu orchuddio'r graffiti, bydd rhaid iddo roi gwybod i'r Cyngor.
- Ar ddiwedd y brydles bydd y Tenant yn dychwelyd yr holl gardiau mynediad, ffobiau ac allweddï a gyhoeddwyd, a gellir ei anfonebu am gost unrhyw rai cyfnewid a oedd yn angenrheidiol yn ystod cyfnod y brydles.
- Bydd y Tenant yn gosod ac yn cynnal gwasanaeth larwm tresbaswyr a thân yn y Safle a bydd yn gyfrifol am fynd i'r safle pan fo'r larwm yn canu'r 'tu allan i oriau gwaith'. Bydd y Tenant yn rhoi gwybod i'r Cyngor unrhyw bryd y bydd y larwm yn canu.

Cyfyngiadau ar y Tenant

- Ni cheir gwerthu na defnyddio unrhyw gynnyrch tybaco ar y Safle.
- Ni chaniateir gwerthu nac yfed alcohol yn y Safle oni bai y ceir caniatâd ysgrifenedig o flaen llaw gan y Cyngor ac y gweithredir trwydded briodol.
- Ac eithrio'r busnes sy'n gweithredu yn y Safle, ni chaniateir unrhyw hysbysebu masnachol ar y safle. Tynnir hysbysebion heb ganiatâd o'r safle.
- Bydd y Tenant yn cydymffurfio â'r holl ofynion statudol ac yn benodol y rheoliadau ynghylch Covid-19
- Ni chaniateir defnyddio plastigau untro.

Cyfarfodydd Perfformiad

Bydd y Tenant yn sicrhau bod o leiaf un uwch aelod o staff ar gael i gyfarfod yn ffurfiol â'r Cyngor ar amlder i'w benderfynu. Bydd yr agenda arferol yn cynnwys yr eitemau canlynol: prif newyddion gan y partïon (yn cynnwys digwyddiadau sydd ar y gorwel), perfformiad y busnes (yn cynnwys tueddiadau ariannol ac effaith y tywydd), materion cynnal a chadw, a chydweithredu â gofynion statudol, adborth cwsmeriaid, marchnata ac unrhyw fater arall. Bydd angen i'r aelod(au) o staff sy'n dod i'r cyfarfod feddu ar

wybodaeth am weithrediadau'r busnes o ddydd i ddydd a chyfrifoldebau gwneud penderfyniadau, gan gynnwys rhai â goblygiadau ariannol.

Adennill Costau - Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i adfer unrhyw gostau gan y Gweithredwr sy'n codi yn sgil ei weithrediadau neu ddiffyg gweithredu yn unol â thelerau'r brydles. Bydd y brydles yn cynnwys unrhyw delerau ac amodau eraill y mae cyfreithwyr y Cyngor yn eu hystyried yn angenrheidiol.

Amddiffyniad Deddf Landlordiaid a Thenantiaid 1954

Bydd y brydles yn cael ei heithrio o'r darpariaethau diogelwch deiliadaeth a gynhwysir yn neddf Landlord a Tenant 1954. Yn ymarferol mae hyn yn golygu na fydd hawl adnewyddu awtomatig yn dilyn y cyfnod 10 mlynedd cychwynnol

CYNLLUNIO

Mae gan yr eiddo ddefnydd diwydiannol ysgafn sy'n bodoli eisoes, a byddai angen caniatâd cynllunio ar gyfer unrhyw fwriad o ran newid defnydd. Dylai cynigwyr nodi'n glir eu defnydd o fewn y

DEUNYDD CYFLWYNO'R CYNNIG, DYDDIAD CAU A CHYFEIRIAD AR GYFER CYFLWYNO CYNIGION

Bydd angen i ymgeiswyr gyflwyno cynnig manwl a fydd yn cynnwys:

A. Cynnig Rhent;

B. Datganiad bwriad/gweledigaeth fusnes (hyd at 500 gair);

C. Cynllun Busnes a Gweithredu (cyhyd ag y dewisa'r cynigydd)

D. Amserlen/Rhaglen Arfaethedig ar gyfer agor; a

E. Datganiad Effaith Amgylcheddol a Newid yn yr Hinsawdd gan gynnwys Polisi Plastigau Arfaethedig.

A. Cynnig Rhentu

Nodwch y dylai cynigion gynnwys y wybodaeth ganlynol:

- I. **Manylion Adnabod y Tenant arfaethedig** a manylion cyswllt;
- II. **Rhentu ar gyfer y brydles (gan gynnwys unrhyw gynnig adolygu rhent);**
- III. **Cadarnhad bod digon o arian ar gael** (h.y. prawf o gyllid) i sicrhau prynu'r brydles a phrawf o gyllid i gyflawni'r cynnig a gyflwynwyd. Dylai hyn nodi unrhyw ffynonellau cyllid neu gyllid (gan gynnwys dibyniaeth arfaethedig ar gyllid grant);
- IV. Enw a manylion cyswllt llawn eich **cyfreithiwr**;
- V. Rhaid i chi nodi amodau eich cynnig, os oes rhai;
- VI. Rhaid i chi amlinellu eich **amserlen** arfaethedig ar gyfer y cynnig i gwblhau'r brydles ac **agor**;
- VII. **Ni ddylai unrhyw gynnig cael eu mynegi fel ffigwr canranol o gynigion gan barti arall;**
- VIII. **Does dim rheidrwydd ar y Cyngor** i dderbyn y cynnig uchaf nac unrhyw gynnig;
- IX. Byddai'n ddefnyddiol pe gallech **amlinellu eich hanes blaenorol** o ran rhedeg cyfleusterau tebyg; a
- X. **Bydd unrhyw arwydd o gydgyllwynio** gan gynydd gydag unrhyw barti arall yn diddymu'r cynnig.

B. DATGANIAD O FWRIAD / GWELEDIGAETH BUSNES

Rhaid i gynigwyr gyflwyno fel rhan o'u cynnig cais ddatganiad o fwriad i ddangos eu gallu i reoli'r buddiant lesddaliad yn effeithiol. Dylai hyn gynnwys asesiad o allu ariannol a sefydliadol y Tenant arfaethedig a dylai gynnwys:

Amlinelliad byr o'r weledigaeth/cynnig ar gyfer defnyddio'r adeiladau;

Strwythur rheoli clir a manylion am sut y caiff yr adeilad ei reoli o ddydd i ddydd gan gynnwys bodloni unrhyw ofynion statudol.

C. Cynllun Busnes a Gweithredu (cyhyd ag y dewisa'r cynigydd)

Crynodeb byr yn amlinellu manylion sut y gweithredir y cynnig.

CH. Rhaglen/Llinell Amser Arfaethedig

Bydd gofyn i gynigwyr, fel rhan o'u cynnig, gyflwyno **Rhaglen/Llinell Amser ddangosol** ar gyfer cyflawniad corfforol ac ariannol eu cynnig.

D. Datganiad Effaith Amgylcheddol a Newid yn yr Hinsawdd

Gofynnir i gynigwyr amlinellu sut y bydd eu cynllun busnes yn ategu ac yn cynorthwyo'r ymdrech fyd-eang i leihau newid yn yr Hinsawdd a dangos rhinweddau amgylcheddol y sefydliad.

Dyddiad Terfyn a Chyfeiriad i Gyflwyno Cynigion

Y dyddiad cau caeth ar gyfer cyflwyno ceisiadau tendr yw **12 hanner dydd ar 6 Hydref 2021.**

Rhaid cyflwyno'r cynnig mewn amlen gyda'r Label Dendr swyddogol wedi ei gludo ar y tu allan, a nodi "**Hen Sied Drenau, Hood Road, Y Barri**".

Rhaid selio'r amlen swyddogol yn ddiogel ac NI DDYLAI ddangos unrhyw farc a allai ddangos pwy yw'r anfonwr/ymgeisydd. Er mwyn osgoi amheuaeth, **ni dderbynnir cynigion a gyflwynir drwy e-bost.**

Dylid cyflwyno cynigion yn llawn ac yn y dull a nodir uchod at y:

Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol,

Cyngor Bro Morgannwg

Swyddfeydd Dinesig

Heol Holltwn

Y Barri CF63 4RU.

Bydd y Cyngor yn **diystyru cynigion** a gaiff eu cyflwyno'n hwyr, eu hanfon i'r cyfeiriad anghywir, cynigion nad ydynt yn cydymffurfio neu sy'n anghyflawn.

Nid oes rheidrwydd ar y Cyngor a'i asiantau i dderbyn unrhyw gynnig. Ar ben hynny nid oes rheidrwydd ar y Cyngor i dderbyn y cynnig ariannol uchaf, ac mae'n cadw'r hawl i atal neu newid y broses gynnig ar unrhyw adeg heb unrhyw oblygiadau o ran y costau a ysgwyddwyd gan y cynigwyr. Mae'r amser a'r gost sy'n deillio o baratoi cynnig i'w ysgwyddo'n llwyr gan y cynigydd ac ni ellir dal y Cyngor yn gyfrifol am gostau o'r fath.

DETHOL Y CYNIGYDD A FFAFRIR A'R MEINI PRAWF SGORIO A BWYSOLIR

Caiff y Cynigydd a Ffafir ei ddethol ar ôl i'r Cyngor adolygu ac asesu pob cynnig. Bydd y Cyngor yn sgorio ac yn graddio pob un o'r cynigion ar y sail ganlynol:

- a. **Y cynnig rhentu a gynigir (pwysoliad o 40%)** ar sail y "Cynnig Rhentu" a gyflwynir gan y cynigiwr; a'r
- b. **Datganiad o fwriad (pwysoliad o 20%)** seiliedig ar ansawdd y cynnig, hygyrchedd ac ystod y cyfleusterau ar gyfer y gymuned leol
- c. **Cynllun Busnes a Gweithredu (pwysoliad o 40%)** Pa mor realistig yw'r rhagolygon ariannol o gostau gweithredu a refeniw; lefel y buddsoddiad i'r busnes; hefyd, manylion unrhyw gynigion "gwerth ychwanegol"; strwythur staff arfaethedig; rheoli staff; hyfforddi staff; polisi cyfle cyfartal. Strategaeth brand a marchnata.
- d. Ni chaiff y **Rhaglen / Amserlen gychwynnol** eu sgorio ond rhaid eu cynnwys yn y cynnig.

DULL GWERTHU

Cynigir y buddiant lesddaliad 10 mlynedd yn yr adeilad drwy dendr anffurfiol. Caiff ceisiadau a dderbynnir y tu allan i'r meini prawf tendr caeth a nodir yn y paragraffau blaenorol o dan yr adran "**Dyddiad Cau a'r Cyfeiriad i Gyflwyno Cynigion**", eu diystyru.

CRYNODEB O RAGDYBIAETHAU GWEITHREDOL AR GYFER CEISIADAU

Fel rhagdybiaeth weithredol, dylai cynigwyr ystyried y canlynol, wrth baratoi eu cais:

- a) **Caniatadau Statudol** – Byddai unrhyw brydles yn cael ei rhoi ar y sail y byddai'r Tenant yn gyfrifol am sicrhau'r holl ganiatadau statudol (e.e. rheoliadau cynllunio ac adeiladu ac ati);
- b) **Prydles Atgyweirio ac Yswirio llawn** - Byddai unrhyw brydles yn cael ei rhoi ar y sail y byddai'r Tenant yn gyfrifol am yr holl atgyweiriadau, costau gwasanaethau statudol (fel trydan, dŵr ac ati), unrhyw atebolrwydd ardrethi, rhwymedigaethau yswiriant ac unrhyw wariant arall a ysgwyddir o ganlyniad i feddiannu'r adeilad drwy gydol cyfnod y brydles.
- c) **Ffioedd Syrfëwr a Chyfreithiol** - Y prynwr fydd yn gyfrifol am ffioedd syrfëwr y Cyngor ac unrhyw gostau cyfreithiol rhesymol.
- d) **Ffioedd Cynllunio** – bydd yn ofynnol i'r Cynigydd a Ffafrir dalu am unrhyw ffioedd cynllunio sy'n gysylltiedig ag unrhyw gais i newid defnydd os bydd angen.

PROSES GYNLLUNIO AR WAHÂN;

Mae'r Cyngor yn **gwahanu'n llwyr** y broses ddethol uchod a'i swyddogaeth fel tiffeddiannwr oddi wrth y broses cais cynllunio a'i swyddogaeth fel yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Mae'r Cynigydd a Ffafrir yn gwbl gyfrifol am baratoi, cyflwyno a sicrhau caniatâd cynllunio i'w cynllun ar gyfer unrhyw newid defnydd neu gais cynllunio arall ar gyfer y safle. Nid yw dewis y Cynigydd a Ffafrir mewn unrhyw fodd yn awgrymu fod y cyngor wedi caniatáu neu y bydd yn rhoi caniatâd cynllunio. Nid yw chwaith mewn unrhyw fodd yn cyfyngu ar yr Awdurdod Cynllunio Lleol wrth arfer ei swyddogaethau.

Nid yw dewis y Cynigydd a Ffafrir ar gyfer y safle gan y Cyngor fel tiffeddiannwr yn awgrymu bod y Cyngor yn ei swyddogaeth wahanol fel Awdurdod Cynllunio Lleol yn cefnogi ei gynnig a gyflwynwyd.

Mae'n ofynnol i'r **Cynigydd a Ffafrir** gynnal trafodaethau cyn gwneud cais gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol. Ceir cyngor pellach ar gostau a'r gofynion ar gyfer cyngor cyn gwneud cais drwy ddilyn y linc a ganlyn:

https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/living/planning_and_building_control/Planning/Planning-Applications/Make-a-Planning-Application.aspx

YMWADIAD

Er y cymerwyd pob gofal wrth baratoi'r papur Marchnata hwn, **ni ellir gwarantu** cywirdeb ei gynnwys. **Nid yw'r cynnwys yn awgrymu unrhyw gynnig neu gontract** ac maent wedi eu paratoi i gynorthwyo cynigwyr yng nghyswllt y broses gynnig.

Nid yw'r Cyngor yn gwneud na rhoi a does gan yr un o gyflogeion y Cyngor awdurdod i roi na rhoi arwydd o warant parthed yr eiddo hwn nac o safbwynt cywirdeb neu drylwyrdd y wybodaeth a gaiff ei rhoi i gynigwyr. Rhaid i ddarpar gynigwyr fodloni eu hunain drwy archwilio neu fel arall gywirdeb y papur hwn a'r wybodaeth sy'n mynd gydag ef.

Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i ddiwygio unrhyw ran o'r papur a bydd yn hysbysu cynigwyr yn ysgrifenedig o unrhyw amrywiad o'r fath.

ATODIAD A: Cynllun Ffiniau Dangosol



ATODIAD B: Gwaith – rhaid cytuno ar bob manyleb gyda Chyngor Bro Morgannwg gan gyfeirio at safonau cydnabyddedig amrywiol, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Gwneud y Pwll Arolygu'n ddiogel
- Tynnu traciau/lleinellau rheilffordd
- Tystysgrifau diogelwch digonol ar gyfer cyfleustodau
- Uwchraddio/atgyweirio'r ardal allanol